# Y Pwyllgor Deisebau

## PET(3)-10-09 Papur 3: 23 Mehefin 2009

### Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

Mae'r papur hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau sydd wedi cael eu hystyried gan y Pwyllgor o'r blaen. Mae llawer o'r wybodaeth hon wedi dod i law ar ffurf gohebiaeth. Os yw hynny'n berthnasol, mae copïau o'r ohebiaeth i'w gweld fel atodiad i'w papur hwn yn PET(3) 10-09 Papur 3A.

### (i) P-03-118 Cymdeithas Canŵio Cymru

**Geiriad y ddeiseb**

Anogir Llywodraeth Cynulliad Cymru i ystyried a gweithredu Mesur er lles Cymru a fyddai'n cadw hawliau mynediad a chyfrifoldebau'r cyhoedd at adnoddau naturiol ac ar eu hyd yn yr un modd ag y mae'r Scottish Land Reform Act yn annog defnydd cydweithredol o'r awyr agored ar gyfer gweithgareddau hamdden iach, llai heriol. Mae'n rhaid i'r mesur hwn ddarparu a chaniatáu mynediad at ddŵr di-lanw ac ar ei hyd yn wyneb y diffyg enfawr mewn eglurder cyfreithiol a'r cyfyngiadau sy'n bodoli ar hyn o bryd, sy'n gweithredu fel rhwystr i chwaraeon a gweithgareddau hamdden a hyrwyddiad Cymru fel lle i ddod ar gyfer Twristiaeth Antur.

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-118.htm

**Cynigiwyd gan:** Ashley Charlwood

**Nifer y llofnodion:** 9893

**Ystyriwyd gan y Pwyllgor ar:** 24 Ebrill 2008, 25 Mehefin 2008, 6 Tachwedd 2008, 4 Rhagfyr 2008, 27 Ionawr 2009, a 2 Mawrth 2009

**Y diweddaraf:** Mae gwybodaeth wedi dod i law gan y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant a'r Pwyllgor Cynaliadwyedd, ac mae wedi'i hatodi fel rhan o PET(3) 10-09 Papur 3A.

### (ii) P-03-166 Ysbyty Abertyleri a'r Cylch

### Geiriad y ddeiseb

Rydym ni sydd wedi llofnodi isod yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth y Cynulliad i edrych ar fwriad y bwrdd iechyd lleol i gau Ysbyty Abertyleri a'r Cylch a rhoi sylw i'r mater.

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-166.htm

**Cynigiwyd gan:** Martha Lowman

**Nifer y llofnodion:** 12

**Ystyriwyd gan y Pwyllgor ar:** 16 Hydref 2008, 20 Tachwedd 2008, 27 Ionawr 2009, 2 Mawrth 2009 a 31 Mawrth 2009

**Y diweddaraf:** Mae gwybodaeth wedi dod i law gan y Gweinidog dros Dreftadaeth, ac mae i'w gweld yn PET(3) 10-09 Papur 3A.

### (iii) P-03-202 Lwfans Cynhaliaeth Addysg

### Geiriad y ddeiseb

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i gydnabod bod pobl ifanc dros 16 oed yn cael eu hystyried i fod yn oedolion gan eu rhieni, ac felly ni ddylid ystyried incwm eu rhieni wrth asesu cymhwyster ar gyfer Lwfans Cynhaliaeth Addysg. Dylid ei seilio ar incwm unigolyn.

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-202.htm

**Cynigiwyd gan:** Catrin Anne Davies

**Nifer y llofnodion:** 272

**Ystyriwyd gan y Pwyllgor ar:** 17 Mawrth 2009, 31 Mawrth 2009 a 5 Mai 2009

**Y diweddaraf:** Yn ei gyfarfod ar 31 Mawrth 2009, cytunodd y Pwyllgor y byddai'n gofyn i'r Pwyllgor Menter a Dysgu ymchwilio ymhellach i'r ddeiseb hon. Mae'r Pwyllgor Menter a Dysgu bellach wedi cyhoeddi adroddiad o'r ymchwiliad hwnnw. Ceir copi o'r adroddiad a llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Menter a Dysgu yn PET(3) 10-09 Papur 3B.

### (iv) P-03-207 Cymorth i'r di-waith yn Nhrefynwy

### Geiriad y ddeiseb

Rydym ni, sydd wedi llofnodi isod, yn annog Llywodraeth Cynulliad Cymru i ymchwilio i sut i ddarparu cymorth a gwybodaeth effeithiol i bobl yng Nghymru sy'n chwilio am waith, hyfforddiant neu sy'n ceisio cychwyn menter fusnes yn lleol.

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-207.htm

**Cynigiwyd gan:** Pwyllgor Materion Cymunedol Cyngor Tref Trefynwy

**Nifer y llofnodion:** 286

**Ystyriwyd gan y Pwyllgor ar:** 31 Mawrth 2009 a 19 Mai 2009

**Y diweddaraf:** Mae gwybodaeth wedi dod i law gan yr Adran Gwaith a Phensiynau, ac mae i'w gweld fel rhan o PET(3) 10-09 Papur 3A.

### (v) P-03-212 Lleihau traffig yn Llanelwy

### Geiriad y ddeiseb

Cytunaf fod ar Lanelwy angen ffordd liniaru Gogledd/De.

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-212.htm

**Cynigiwyd gan:** Cyngor Tref Llanelwy

**Nifer y llofnodion:** 5000+

**Ystyriwyd gan y Pwyllgor ar:** 5 Mai 2009

**Y diweddaraf:** Mae gwybodaeth wedi dod i law gan y Dirprwy Brif Weinidog, ac mae i'w gweld fel rhan o PET(3) 10-09 Papur 3A.

### (vi) P-03-213 Rhowch y gorau i'r cynllun difa moch daear

### Geiriad y ddeiseb

Rydym yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i roi'r gorau i'w gynllun arfaethedig i ddifa moch daear fel rhan o'i raglen dileu TB mewn gwartheg. Mae hyn yn wyneb tystiolaeth wyddonol gadarn a adolygwyd gan gymheiriaid o'r Grŵp Gwyddonol Annibynnol. Mae'n nodi'n glir 'na all difa moch daear wneud unrhyw gyfraniad ystyrlon i reoli TB mewn gwartheg'.Ymunwch â'n hymgyrch - rhowch ddiwedd ar y cynllun difa!

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-213.htm

**Cynigiwyd gan:** Secret World Wildlife Rescue

**Nifer y llofnodion:** 14098

**Ystyriwyd gan y Pwyllgor ar:** 5 Mai 2009

**Y diweddaraf:** Mae gwybodaeth wedi dod i law gan y Gweinidog dros Faterion Gwledig, ac mae wedi'i hatodi fel rhan o PET(3) 10-09 Papur 3A.

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**

**Mehefin 2009**